**Tasg 2**

# Pysgod! Pysgod! Pysgod!

**Tasg grŵp**

**Pysgota cyfrifol**

Rhaid i bawb sy'n pysgota wneud hynny mewn ffordd gyfrifol. Ym Mhrydain, mae cynllun gwirfoddol sy'n helpu i wneud yn siŵr fod pawb sy'n pysgota ar y môr yn gwneud hynny mewn ffordd gyfrifol, sy'n rhoi chwarae teg i bawb. Enw'r cynllun yw'r Cynllun Pysgota Cyfrifol (*Saesneg: Responsible Fishing Scheme*).

Yn achos pob cwch a physgotwr, mae'r cynllun yn rhoi sylw i:

- Diogelwch, iechyd a lles
- Hyfforddiant
- Y cwch ei hun
- Trin pysgod fel bwyd
- Gofalu am yr amgylchedd

Ewch i'r dudalen nesaf.

Rhowch y pwyntiau canlynol yn y bocs iawn yn y tabl ar y dudalen nesaf.

- gwneud yn siŵr nad oes twll yng ngwaelod y cwch
- gwneud yn siŵr fod y pysgod sy'n cael eu dal o'r maint iawn
- gwneud yn siŵr nad yw'r cwch yn gollwng olew
- gwneud yn siŵr fod pawb ar y cwch yn gwisgo'r dillad cywir, yn cynnwys siaced achub
- casglu unrhyw offer sydd wedi disgyn i'r môr, yn cynnwys hen rwydi
- gwneud yn siŵr fod y pysgod yn cyrraedd y siopau'n ffres
- defnyddio iâ neu rew i gadw'r pysgod sydd wedi eu dal ar fwrdd y llong
- helpu'r pysgotwyr i wella eu sgiliau
- peidio pysgota gormod o'r un math o bysgod rhag iddyn nhw fynd yn brin
- bod yn gwrtais a dangos parch at bawb
- gwneud yn siŵr nad yw'r pysgod yn cael eu niweidio wrth eu dal
- rhoi tâl teg i'r criw am eu gwaith
- gwneud yn siŵr fod pawb ar fwrdd y cwch yn gwybod beth yw'r drefn diogelwch mewn argyfwng
- gwybod beth yw rheolau pysgota'r llywodraeth – does neb eisiau torri'r gyfraith!
- cadw'r cwch yn lân
- nodi dyddiad dal y pysgod
- nodi ble cafodd y pysgod eu dal
- nodi faint o bysgod gafodd eu dal
- osgoi creu sbwriel
- gwneud yn siŵr fod y capten yn deall ei waith a bod ganddo dystysgrifau i ddangos hynny

| | |
|---|---|
| Diogelwch, iechyd a lles | |
| Hyfforddiant | |
| Y cwch ei hun | |
| Trin pysgod fel bwyd | |
| Gofalu am yr amgylchedd | |

| **Geirfa** | | |
|---|---|---|
| **CYMRAEG** | **DISGRIFIAD** | **SAESNEG** |
| cyfrifol | gofalus, call | responsible |
| lles | gwneud yn siŵr fod person yn hapus a bodlon | welfare |
| hyfforddiant | dysgu rhywun sut mae gwneud rhywbeth | training |
| argyfwng | pan mae rhywbeth ofnadwy'n digwydd | crisis |